

**Cofnodion o gyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
(BIPCTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Tachwedd 2021 ar ffurf cyfarfod
rhithwir a ddarlliedwyd yn fyw drwy Microsoft Teams**

Aelodau'n bresennol:

Emrys Elias	Cadeirydd
Paul Mears	Prif Weithredwr (Yn rhannol)
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol / Is-gadeirydd
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol (Yn rhannol)
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Carolyn Donoghue	Aelod Annibynnol
Lynda Thomas	Aelod Annibynnol (Yn rhannol)
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
Lauren Edwards	Dirprwy Gyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd (Yn rhannol)
Sally May	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Dom Hurford	Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol (Yn rhannol)
Gareth Robinson	Prif Swyddog Gweithredu (Dros Dro)
Greg Dix	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Anna Lewis	Aelod Cyswllt – Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Clinigol (Yn rhannol)

Eraill yn bresennol:

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Lee Leyshon	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Richard Morgan-Evans	Pennaeth Staff (Yn Rhannol)
Cheryl Davies	Dirprwy Bennaeth Nyrsio (Yn rhannol)
Gary Morgan	Cynorthwydd Theatr (Yn rhannol)
Paul Dalton	Archwiliad Mewnol
Clare Williams	Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Phartneriaethau (Yn rhannol)
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

Eitem ar yr

Agenda

1

MATERION RHAGARWEINIOL

1.1

Croeso a Chyflwyniadau

Ar ran y Bwrdd, dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy estyn cydymdeimlad dwys y Bwrdd Iechyd â theulu'r Cynghorydd Philip White ar y newyddion trist iawn am ei farwolaeth.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd White wedi gwasanaethu fel un o Aelodau Annibynnol BIPCTM am ychydig llai na dwy flynedd, o fis Tachwedd 2019. Cyn dod yn Aelod Annibynnol, roedd y Cynghorydd White hefyd yn Aelod Cyswllt o'r Bwrdd o fis Rhagfyr 2018.

Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'r Cynghorydd White yn cael ei gofio'n annwyl gan ei holl ffrindiau a chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a dywedodd fod y Bwrdd Iechyd yn cydymdeimlo â theulu, cydweithwyr agos a ffrindiau'r Cynghorydd White ar yr adeg anodd iawn hon.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, y rhai a oedd yn arsylwi a'r cydweithwyr oedd yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. **Nodwyd** hefyd fformat y digwyddiad yn ei ffurf rithiol gan y Cadeirydd.

Ar ran J Sadgrove, diolchodd y Cadeirydd i Val Wilson, Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol am ei harweiniad a'r cyfraniadau yr oedd wedi'u gwneud i'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Nododd yr aelodau fod Val Wilson i fod i ymddeol o'r Bwrdd Iechyd cyn hir.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio barn y Bwrdd ar ddiwedd y cyfarfod heddiw ynghylch y cyfarfod hwn er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.

1.2

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Nododd yr Aelodau ymddiheuriadau gan:

- Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd
- Dilys Jouvenat, Aelod Annibynnol
- James Hehir, Aelod Annibynnol
- Lisa Curtis-Jones, Aelod Cyswllt
- Sharon Richards, Aelod Cyswllt

1.3

Datganiadau o fuddiannau

Ni fu yr un datganiad o fuddiant.

1.4 **Gwranddo a dysgu a rennir – straeon y staff a chleifion ynglŷn â'r heriau a'r cyfleoedd yn sgil COVID-19**

Cafwyd cyflwyniad gan C Davies, Dirprwy Bennaeth Nyrsio. Roedd G Morgan, Cynorthwydd Theatr hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Roedd y stori'n ymwneud â siwrnai G Morgan wedi iddo ddal Covid-19 ym mis Hydref 2020 a'i dderbyniad dilynol i'r ysbyty a'r driniaeth a gafodd wedi hynny.

Croesawodd L Thomas y stori a oedd yn gwneud iddi deimlo'n ostyngedig iawn a gofynnodd am eglurder ynghylch a oedd unrhyw beth y gallai'r Bwrdd Iechyd fod wedi'i wneud yn wahanol i wella ei brofiad. Dywedodd G Morgan, er ei fod wedi cael llawer o gefnogaeth ragorol gan y gwasanaeth seicoleg, ei fod wedi profi oedi a phroblemau gyda chael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol a'i fod hefyd wedi profi oedi wrth gael mynediad at wasanaethau meddygol eraill megis anadlol ac awdioleg.

Diolchodd H Daniel i G Morgan am rannu ei stori ac ymddiheurodd am y problemau a gafodd o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol a chytunodd i fynd ar drywydd hyn. Cytunodd D Hurford hefyd i fynd ar drywydd y materion a brofwyd ynghylch gofal meddygol.

Diolchodd y Cadeirydd i C Davies a G Morgan am rannu'r stori a chaniatáu i'r Bwrdd Iechyd glywed am y siwrnai a gwranddo ar y profiadau a rannwyd gan ddysgu ohonynt.

Penderfyniad: **NODWYD** Stori'r Claf.

Cam gweithredu: Dilyniant i'w gynnal o'r materion a brofwyd wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol a'r materion a brofwyd ynghylch agweddau ar ofal meddygol, er enghraifft, Anadlol ac Awdioleg.

2 **AGENDA CANIATÂD**

Cadarnhaodd yr Aelodau nad oedd unrhyw adroddiadau y dymument eu symud o'r Agenda Caniatâd i'r Prif Agenda.

3.1 **I'W CYMERADWYO**

3.1.1 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 sydd eto i'w cadarnhau**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

3.1.2 **Cofnodion heb eu Cadarnhau o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion 'mewn pwyllgor' fel cofnod gwir a chywir.

3.1.3 **Adroddiad y Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin**

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad;
CYMERADWYWYD Gosod y Sêl Gyffredin.

3.1.4 Fframwaith Sicrwydd Archwilio Clinigol

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.5 Model o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.6 Diwygio'r Rheolau Sefydlog – Atodlen 4.2

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.7 Polisi Fframwaith Safonau Ymddygiad

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y polisi.

3.1.8 Diweddariad Chwarter 2 Cynllun Blynyddol 2021-2022

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.2 I'W NODI

3.2.1 Cofnodion Gweithredu'r Pwyllgor

Penderfyniad: **NODWYD** y Cofnodion Gweithredu.

3.2.2 Adroddiadau'r Cyd-bwyllgorau

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau Cryno.

3.2.3 Adroddiad Blynyddol Diogelu

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

3.2.4 Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2020/2021

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

4. PRIF AGENDA

4.1 Materion sy'n Codi heb eu hystyried yn y Cofnodion Gweithredu

Nid oedd unrhyw faterion pellach sy'n codi a nodwyd.

5. LLYWODRAETHU

5.1 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyflwynodd P Roseblade yr adroddiad i'r aelodau. Nododd yr aelodau bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth ddatblygu'r traciwr archwilio gyda gwaith pellach wedi'i gynllunio i gryfhau'r broses ymhellach. Nododd yr aelodau fod trafodaethau hefyd wedi'u cynnal mewn perthynas â'r angen i fod yn ystyriol a realistig ynghylch yr amserlenni a nodwyd ar gyfer cwblhau.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.2 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyrff Lletyol

Cyflwynodd P Roseblade yr adroddiad i'r Aelodau. Nodwyd gan yr aelodau bod trafodaeth wedi'i chynnal ar berfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a oedd wedi'i gynnwys ar gofrestr risg y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) a nodwyd bod cais wedi'i wneud i'r adroddiad cryno am brofiad y claf WAST gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar gyfer craffu. Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Therfynau Awdurdodi Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a oedd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod llwybr llywodraethu clir yn lle PGIAC i allu awdurdodi pryniadau gofal iechyd o dros £1m.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.3 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Cyflwynodd J Sadgrove yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi nodi cynnydd yn niferoedd y manau cadw yn y gwasanaethau oedolion a phobl hŷn, risgiau staffio a mesurau lliniaru a roddwyd ar waith a thoriadau a chamgymeriadau ac fe weithredwyd arnynt i gyd o fewn y terfyn amser o 14 diwrnod. Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd am ddau wall sylfaenol ddiffygiol a dyma'r Pwyllgor yn gwneud cais i ddysgu o hyn. Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor wedi gofyn am arweiniad gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol mewn perthynas â'r angen i ddilysu rhestr Meddygon Cymeradwy Adran 12.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.4 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth

Cyflwynodd E Elias yr adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.5 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd P Mears yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r heriau sylweddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu mewn perthynas ag adferiad gofal dewisol a mynd i'r afael â'r rhestrau aros wrth gefn. Nododd yr aelodau y byddai'r darn hwn o waith nawr yn cael ei ddatblygu gan dîm canolog a fydd yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cronni adnoddau gan sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o theatrau a gwelyau ac yn lleihau annhegwch ar draws y safleoedd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.6 Cofrestr Risg y Sefydliad

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad.

Gwnaeth P Roseblade sylw ar risg 3826, gorlenwi'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, a dywedodd nad oedd yr adnabyddiaeth risg yn sôn am yr anallu i ryddhau coch fel risg i aelodau o'n poblogaeth yn y gymuned. Cyfeiriodd P Roseblade hefyd at y newid mewn canlyniad a dywedodd, er ei bod yn deall y newid mewn tebygolrwydd o ganlyniad i fesurau lliniaru, roedd hwn yn newid sylweddol i ganlyniad y risg. O ran y materion a godwyd ynghylch canlyniad, dywedodd G Galletly fod gwaith yn cael ei wneud ar y sgoriau targed a'r canlyniadau a drafodwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ac ychwanegodd fod y canlyniad penodol hwn yn cael ei adolygu.

O ran yr elfen rhyddhau coch, cadarnhaodd G Robinson mai hwn oedd un o'r prif feysydd ffocws yr Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Ychwanegodd G Robinson fod gorlenwi yn parhau i fod yn broblem o fewn yr Adran Achosion Brys ac ychwanegodd fod hwn yn broblem ar draws Cymru gyfan. Nododd yr aelodau fod y Bwrdd Iechyd yn un o'r perfformwyr gwaethaf yn y maes hwn a nodwyd bod hwn yn parhau i fod yn brif ffocws o fewn y Tîm Gweithredol.

Gofynnodd I Wells am ddiweddariad ar Risg 4149. Dywedodd G Galletly fod diweddariad manwl ar Dŷ Llidiard yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a ddylai, gobeithio, fynd i'r afael â'r cwestiynau a godwyd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.7 Adroddiad Cynnydd ar Ymyrraeth wedi'i Thargeddu a Mesurau Arbennig

Cyflwynodd P Mears yr adroddiad. Nododd yr aelodau y byddai'r hunanasesiad nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Rhagfyr 2021 a nodwyd bod adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru dros y misoedd diwethaf.

Dywedodd J Sadgrove fod Aelodau Annibynnol wedi ceisio sicrwydd pellach o ran triongli'r wybodaeth a ddarparwyd ac ychwanegodd, yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021, y cafwyd diweddariadau cynnydd pellach

gan staff ar draws y sefydliad a nododd fod gwelliant yn digwydd ac roedd lefel uchel iawn o ymrwymiad gan y staff a braf oedd gweld hynny.

Croesawodd y Cadeirydd y diweddariad a'r cynnydd a wnaed.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.8 Adroddiad Diweddaru Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016) ar gyfer Oedolion Aciwt yn dilyn y cyfrifiad chwe misol fis Mehefin 2021

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad gan ddweud fod staffio yn parhau i gael ei adolygu deirgwaith y dydd mewn cyfarfodydd Uwch-nyrs ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd. Nododd yr aelodau y bu cynnydd dros dro mewn sefydliadau nyrsio a nodwyd nad oedd unrhyw argymhellion yn cael eu gwneud ar gyfer unrhyw newidiadau parhaol nes bod gwaith dadansoddi pellach yn cael ei wneud fis Ionawr 2022.

Croesawodd J Sadgrove yr adroddiad a oedd yn ei barn hi yn drylwyr gan estyn gair o ddiolch i G Dix am dynnu sylw'r Bwrdd at y mater hwn.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

6 CREU IECHYD

6.1 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau

Cyflwynodd J Sadgrove yr adroddiad i'r Aelodau. Nododd y Bwrdd bod trafodaethau wedi'u cynnal ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys tai a digartrefedd. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i weithgareddau'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

6.2 Adroddiad Cryno'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad i'r Aelodau. Nododd yr aelodau fod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y grŵp wedi hysbysu'n ddiweddar o'u bwriadau i roi'r gorau i'w rolau a nodwyd bod camau'n cael eu cymryd yn awr i sicrhau rhai addas yn eu lle.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch y tebygolrwydd y byddai'r grŵp yn cael ei roi o'r neilltu pe bai anawsterau o ran penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd, dywedodd L Prosser fod dull mwy rhagweithiol yn cael ei fabwysiadu i gefnogi unigolion i gyflawni'r rolau hyn.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

6.3 Diweddariad Iechyd y Boblogaeth

Cyflwynodd K Nnoaham yr adroddiad i'r Aelodau.

Croesawodd P Roseblade yr adroddiad a oedd wedi bod yn addysgiadol yn ei barn hi a gofynnodd am eglurder ynghylch a ellid rhoi diweddariad y gyfradd Coch Ambr Gwyrdd (RAG) i'r Bwrdd ar y 37 o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ychydig fisoedd yn ôl er mwyn nodi cynnydd. Cytunodd K Nnoaham i ddarparu'r wybodaeth hon i Aelodau'r Bwrdd.

Dywedodd P Mears fod trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal gyda chydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol ac roedd yn obeithiol i weld pa mor gefnogol oedd cydweithwyr yr Awdurdod Lleol ynghylch y darn hwn o waith a sut yr oeddent yn cydnabod eu rhan nhw wrth gyflawni rhan o'r gweithgaredd. Nododd yr aelodau fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu timau mwy integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a rhannu data rhwng Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Diolchodd y Cadeirydd i K Nnoaham am gyflwyno'r adroddiad a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn y diweddariadau ar y gyfradd RAG.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Diweddariad RAG i'w roi i Aelodau ar y 37 o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y Bwrdd.

6.4 Brechiadau Atgyfnerthu Covid

Cyflwynodd C Williams ddiweddariad i'r Aelodau ar y cynnydd sydd ar waith yn erbyn y rhaglen Brechiadau Atgyfnerthu Covid. Nododd yr aelodau eu bod yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch union natur y Rhaglen Brechiadau Atgyfnerthu ar gyfer 2022.

Croesawodd y Bwrdd y cyflawniadau rhagorol a wnaed hyd yma a'r gwaith caled a wnaed gan nifer o dimau i gyflwyno'r rhaglen.

Penderfyniad: **NODWYD** y cyflwyniad.

7. GWELLA GOFAL

7.1 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Cyflwynodd J Sadgrove yr adroddiad a oedd yn ymwneud â chyfarfod mis Medi. Nododd yr aelodau fod cyfarfod dilynol wedi'i gynnal ar 22 Tachwedd 2021.

Nododd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau allweddol ar Raglen Gwella Ysbyty'r Tywysog Siarl lle nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn dilyn yr ymweliad dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Cafwyd trafodaeth fanwl yng

nghyfarfodydd mis Medi a Thachwedd mewn perthynas â Thŷ Llidiard lle nodwyd bod rhaglen wella strwythuredig yn ei lle a oedd yn cael ei chefnogi gan gydweithwyr Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC). Darparwyd diweddariad manwl hefyd mewn perthynas â Gwasanaethau Offthalmoleg lle nodwyd bod cynlluniau manwl yn eu lle a bod cynnydd da yn cael ei wneud.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.2 Adroddiad Cryno ar Gynnydd y Grŵp Cyngori Clinigol

Cyflwynodd A Lewis yr adroddiad gan dynnu sylw at y meysydd allweddol canlynol:

- Roedd hwn yn gyfnod heriol iawn i staff clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r arolwg staff lle nodwyd tra bod 20% o'r staff wedi ymateb, roedd pryder ynglŷn ag 80% o'r staff nad oedd wedi ymateb gan y teimlwyd efallai bod yna staff o fewn y garfan hon sydd angen y cymorth mwyaf;
- Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â morâl isel o fewn gofal sylfaenol a gwnaed rhai awgrymiadau ynghylch yr hyn a allai helpu i wella'r sefyllfa;
- Cafwyd trafodaethau ynghylch materion yn ymwneud â'r gweithlu a recriwtio, er enghraifft, oedi ym maes iechyd galwedigaethol, yr angen am recriwtio symlach ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, pa rolau yr oedd Cymdeithion Meddygol yn eu cyflawni a pha feysydd y cawsant eu trefnu iddynt, cadw staff a chyfleoedd pellach sydd eu hangen o ran dilyniant gyrfa;
- Mynegwyd pryder ynghylch materion llety ar y safleoedd aciwt a oedd wedi'u gwaethygu yn sgil Covid-19 gan arwain at anallu i ddarparu rhai gwasanaethau, er enghraifft, rhoi'r gorau i ysmygu;
- Roedd rhai Clinigwyr yn ei chael hi'n anodd deall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad newid ffin a gyflwynwyd i ddechrau fel mesur dros dro ond a oedd wedi'i ddwyn ymlaen. Nodwyd bod Clinigwyr yn teimlo bod hyn wedi arwain at rai diffygion a'u bod yn teimlo bod angen cyfathrebu'n gliriach ynghylch y rhesymau dros y penderfyniad hwn ac a oedd hyn yn debygol o fod yn newid parhaol.

Dywedodd y Cadeirydd fod tair thema eang wedi'u nodi o'r trafodaethau uchod a oedd yn ymwneud â chyfathrebu newid ffiniau, llety a materion gweithlu.

Dywedodd G Robinson, ynghylch y newid i'r ffin, fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud ar gydbwysedd risg a theimlwyd mai dyna'r penderfyniad cywir i'w wneud o safbwynt gweithredu. Ychwanegodd G Robinson fod yr adroddiad a oedd wedi'i ddatblygu wedi'i rannu â'r Grŵp Lleoliad Integredig ac y dylai'r penderfyniad fod wedi'i raeadru i Glinigwyr. Dywedodd G Robinson y byddai'n trafod y dewis bod hyn yn newid tymor hwy gyda Chyfarwyddwr Grŵp Lleoliad Integredig Rhondda a Thaf Elái a byddai hefyd yn sicrhau gwell cyfathrebu.

Dywedodd P Mears fod y trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod ynghylch heriau Gofal Sylfaenol wedi bod yn wirioneddol bwerus. Mewn perthynas â llety, dywedodd P Mears y byddai angen cynnal adolygiad o'r holl lety sydd ar gael ar draws y Bwrdd Iechyd ac ychwanegodd y byddai angen blaenoriaethu gofod clinigol ar gyfer gwasanaethau clinigol ac y gellir ymdrin â hyn o fewn y Grwpiau Lleoliad Integredig.

Mynegodd D Hurford ei bryder ynghylch y canfyddiad bod y gwasanaethau Gofal Sylfaenol ac Eilaidd fel ei gilydd yn meddwl nad oedd yr un gwasanaeth yn gweithio mor galed â'r llall a byddai angen ystyried hyn ymhellach. Ychwanegodd D Hurford fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i adolygu sut y gellid gwella recriwtio.

Dywedodd L Edwards ei bod wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf a bod presenoldeb yn dda iawn ac roedd o'r farn bod y clinigwyr wedi cael y cyfle i gyfleu eu safbwynt.

Diolchodd y Cadeirydd i A Lewis am gyflwyno'r adroddiad gan nodi y byddai Cydweithwyr Gweithredol yn gweithredu ar y materion a godwyd yn dilyn y cyfarfod.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Trafodaeth i'w chynnal gyda Chyfarwyddwr Grŵp Lleoliad Integredig Rhondda a Thaf Elái ynghylch materion cyfathrebu newid ffiniau a ph'un ai y gellid gweithredu hyn fel newid tymor hwy.

7.3 **Adroddiad Ansawdd – i gynnwys diweddariad ar Raglen Gwella Ysbyty'r Tywysog Siarl**

Cyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaeth G Dix sylw ar y Grŵp Cyngori Clinigol gan ddweud fod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod cynrychiolaeth nyrsys yn y cyfarfod hwn yn gwella er mwyn sicrhau bod persbectif mwy cytbwys a thrafodaeth yn cael ei chynnal.

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad. Dywedodd G Galletly fod gwaith yn cael ei wneud i wella ymateb y Bwrdd Iechyd i bryderon a dywedodd fod Adolygiad Archwilio Mewnol wedi'i gynnal yn ddiweddar i Brosesau Pryderon, a bod ei gynnwys yn cael ei ystyried. Nododd yr Aelodau y byddai diweddariad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan I Wells ynghylch y rhesymau y tu ôl i faterion cyfathrebu fel un o brif themâu cwynion, dywedodd G Galletly y byddai cyfran uchel o bryderon bob amser yn cael eu priodoli i faterion cyfathrebu a chytunodd i gynnal adolygiad dyfnach am y rhesymau y tu ôl i'r materion cyfathrebu. Nododd yr aelodau nad oedd hwn yn fater i Gwm Taf Morgannwg yn benodol.

Mewn perthynas â Gwallau Meddyginiaeth, dywedodd J Sadgrove fod trafodaeth wedi'i chynnal yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fis Tachwedd ynglŷn â nifer y digwyddiadau meddyginiaeth. Nododd yr aelodau bod 273 o gamgymeriadau wedi eu hadrodd yn y ffrâm amser ddiweddaraf, ac roedd un ohonynt wedi achosi niwed difrifol. Nododd yr aelodau fod y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad manylach ar y mater hwn.

Dywedodd C Moss ei bod yn croesawu datblygiad y Fframwaith Dysgu gan fod y Cyngor Iechyd Cymuned yn aml yn derbyn adborth negyddol gan gleientiaid ynghylch y Bwrdd Iechyd ac ychwanegodd y byddai'n gam cadarnhaol i gael hwn ar waith.

Cyflwynodd G Robinson ddiweddariad ar Raglen Gwella Ysbyty'r Tywysog Siarl. Ymunodd C Roberts ac S O'Brien â G Robinson i gyflwyno'r diweddariad a nododd yr aelodau eu bod wedi arwain ar welliant sylweddol yn y ffordd yr oedd y rhaglen wedi mynd i'r afael â'r materion etifeddiaeth.

Diolchodd J Sadgrove i G Robinson am gyflwyno'r diweddariad a dywedodd fod trafodaeth fanwl wedi'i chynnal yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar y mater hwn. Ar ran y Pwyllgor, estynnodd J Sadgrove ei diolch i staff ar bob lefel am eu hymrwymiad a'u parodrwydd i gymryd rhan yn y rhaglen newid ac am yrru'r newid hwn yn ei flaen.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i G Robinson a'i gydweithwyr am y trosolwg cynhwysfawr a ddarparwyd a nododd fod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi cydnabod a nodi'r gwaith cadarnhaol a wnaed.

Diolchodd C Roberts i'r Bwrdd am y sylwadau a wnaed a chroesawodd yr adborth a ddarparwyd gan J Sadgrove.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Adolygiad i'w gynnal o'r union resymau y tu ôl i'r materion cyfathrebu a adroddwyd yn rhai o'r pryderon a godwyd.

7.4 Portffolio Adfer Gofal Difrys

Cyflwynodd G Robinson yr adroddiad.

Dywedodd P Roseblade ei bod yn falch o nodi ehangu llawdriniaeth Offthalmoleg ddifrys ar safle Tywysoges Cymru a gofynnodd am eglurder ynghylch pa mor realistig oedd y cynllun dal i fyny â gofal difrys o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol o ran Mentrau Rhestrau Aros. Nododd yr aelodau fod cyllid rheolaidd bellach wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n gwneud y sefyllfa'n fwy cynaliadwy. Nododd yr aelodau fod ymgysylltu â thimau i wneud gwaith Menter Rhestrau Aros wedi bod yn heriol oherwydd y galwadau cynyddol arnynt ar hyn o bryd.

Dywedodd P Mears fod cysylltiad rhwng adferiad difrys ac adferiad ariannol ar gyfer eleni lle'r oedd risgiau'n gysylltiedig â'r ddau ac ychwanegodd fod camau'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan C Donoghue ynghylch a oedd y Bwrdd Iechyd ar darged i ail-ddechrau'r gwasanaeth neges destun atgoffa fis Rhagfyr, dywedodd G Robinson y byddai angen iddo gadarnhau'r sefyllfa ddiweddaraf y tu allan i'r cyfarfod. Nododd yr aelodau fod cymorth Cyfathrebu ar gael ar draws y rhaglen gyfan a nodwyd bod llinell gyswllt wedi'i sefydlu i gleifion gael ffonio i holi ynghylch eu sefyllfa bresennol a hyd tebygol yr aros.

Croesawodd M Jehu y diweddariad bod Llawfeddygaeth Orthopedig Ddifrys bellach yn cael ei chanoli ar Ward 15 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Dywedodd P Mears fod hyn yn parhau yn y cyfnod cynllunio ac ychwanegodd y byddai llawdriniaethau cleifion mewnol yn cael eu cynnal unwaith y byddai Ward 15 yn agor. Mewn perthynas â'r defnydd arfaethedig o gyfleusterau Ysbyty Brenhinol Gwent, nododd yr Aelodau fod hwn mewn cyfnod peilot hyd at y Nadolig a bod y Bwrdd Iechyd yn dal i ddefnyddio'r capasiti sydd ar gael yn y sector preifat ar gyfer Llawfeddygaeth Orthopedig.

Dywedodd J Sadgrove wrth y Bwrdd fod materion wedi codi yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ynghylch Amseroedd Aros Diagnostig a dywedodd fod 31% ar restr aros y Bwrdd Iechyd yng Nghymru ar gyfer Diagnosteg. Gofynnodd J Sadgrove am eglurder ynghylch yr hyn y gellid ei wneud i leihau sefyllfa'r rhestrau aros. Dywedodd G Robinson y byddai cyfle i ddatblygu cynlluniau manwl gyda'r Grwpiau Lleoliad Integredig gan ddefnyddio'r cyllid adfer ac ychwanegodd y gofynnwyd i'r Grwpiau Lleoliad Integredig ymchwilio i gyfleoedd pellach ar gyfer gosod gwaith ar gontract allanol. Nododd yr aelodau fod canllawiau cadw pellter cymdeithasol diwygiedig ar gyfer Diagnosteg wedi'u derbyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a fyddai'n caniatáu i fwy o gleifion gael eu gweld mewn meysydd Diagnostig. Dywedodd P Mears fod Diagnosteg yn rhan bwysig o'r llwybr Canser.

Diolchodd y Cadeirydd i G Robinson am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Gofynnir am gadarnhad y tu allan i'r cyfarfod a oedd y Bwrdd Iechyd ar darged i ail-ddechrau'r Gwasanaeth Negeseuon Testun fis Rhagfyr.

7.5 Y Dangosfwrdd Perfformiad

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a dywedodd y craffwyd yn fanwl ar yr adroddiad yn y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid.

Cyfeiriodd P Roseblade at y diweddariad a ddarparwyd ar drosglwyddo gofal ambiwlansys rhwng shifftiau a cholli oriau ambiwlans gan olygu bod 130 o griwiau wedi treulio'u shifft gyfan mewn maes parcio gydag un claf, rhywbeth

nad oedd yn dderbyniol, a gofynnodd am eglurder ynghylch yr hyn y mae Ysbyty Tywysoges Cymru yn ei gynllunio i fynd i'r afael â'u cyfraddau rhyddhau coch. Dywedodd G Robinson fod y perfformiad diweddar wedi gwaethygu gyda'r Ysbyty yn gweld mewnllifiad enfawr o gleifion o ardal Bae Abertawe. Nododd yr aelodau fod cynlluniau yn eu lle ar gyfer ehangu'r defnydd posibl o ysbyty maes Ysbyty'r Seren ar gyfer cleifion sy'n aros am ofal Cartref.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch pryd y byddai'n debygol y byddai gwasanaeth strôc 7 diwrnod yn ei le yn y Bwrdd Iechyd, cytunodd G Robinson fod angen i'r Bwrdd Iechyd symud i weithio 7 diwrnod ar gyfer Strôc a chynghori mai'r rhaglen genedlaethol fyddai'r cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau Strôc wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd P Roseblade hefyd at y niferoedd isel ar gyfer strôc yn yr adroddiad gan awgrymu pe bai'r niferoedd isel yn achosi'r amrywiad enfawr, yna a oedd modd i'r adroddiad grynhoi'r niferoedd gwirioneddol yn ogystal â'r canrannau. Ychwanegodd I Wells y byddai hefyd yn ddefnyddiol cael canrannau yn ogystal â niferoedd. Cytunodd L Prosser i gyfleu hyn yn ôl i'r Tîm.

Diolchodd y Cadeirydd i L Prosser am gyflwyno'r diweddariad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Adroddiadau yn y dyfodol i nodi nifer y cleifion strôc yn ogystal â chanrannau cleifion strôc.

7.6 **Diweddariad ar y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol**

Cyflwynodd G Dix a D Hurford yr adroddiad gan ddweud fod y Bwrdd Iechyd yn aros am y dyddiad cyhoeddi terfynol gan IMSOP ynghylch yr adolygiad a gynhaliwyd i Wasanaethau Newyddenedigol. Nododd yr aelodau fod 55 o'r 70 o argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gwreiddiol bellach wedi'u cyflawni.

Diolchodd J Sadgrove i G Dix a D Hurford am gyflwyno'r adroddiad gan gadarnhau fod cynnydd yn y maes hwn yn cael ei asesu drwy'r broses sicrwydd a roddwyd ar waith. Nododd yr Aelodau fod trafodaeth wedi'i chynnal yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ynghylch a oedd digon o fanylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad er mwyn rhoi sicrwydd. Diolchodd J Sadgrove i V Wilson am ei harweiniad rhyfeddol o fewn y darn hwn o waith.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

8 **CYNNAL EIN DYFODOL**

8.1 **Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid**

Cyflwynodd M Jehu yr adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

8.2 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Digidol a Data

Cyflwynodd I Wells yr adroddiad gan ganmol y timau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a oedd wedi bod yn gweithio'n ddiflino yn ychwanegol i'w rolau arferol i ddadagregu gwasanaethau o systemau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Ategodd P Mears y datganiad hwn gan ychwanegu fod cryn dipyn o waith ar ôl i'w wneud a bod angen adnoddau sylweddol a dywedodd fod cais am gyllid wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn.

Mewn perthynas â'r wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ar Godio Clinigol, dywedodd P Mears fod hwn yn faes gwaith pwysig i'r Bwrdd Iechyd ac ychwanegodd y byddai'n trafod hyn gyda'r Cyfarwyddwr Digidol newydd fel blaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd wrth symud ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i I Wells am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

8.3 Diweddariad cyllid ar gyfer Mis 7 2021/2022

Cyflwynodd S May yr adroddiad.

Gofynnodd P Roseblade am eglurder mewn perthynas ag effaith yr Hysbysiad Cynghori ar Gyflogau fis Tachwedd ac ai codiad cyflog oedd hwn neu a fyddai'n cael yr un effaith â'r mentrau rhestrau aros. Cadarnhaodd S May fod hwn yn godiad cyflog gan ychwanegu fod trefniadau dros dro wedi'u rhoi ar waith i ddenu staff i rai shiftiau penodol a dywedodd fod y rhain bellach wedi'u symud i hysbysiad Cynghori ar Gyflogau Cymru Gyfan. Teimlwyd y byddai'r costau'n sylweddol ac yn annog staff i wneud mwy o shiftiau.

Cyfeiriodd P Roseblade at y dyraniad rheolaidd y cyfeiriwyd ato gan G Robinson yn gynt yn y cyfarfod gan ofyn am eglurder ynghylch a fyddai hyn yn effeithio ar y diffyg sylfaenol. Dywedodd S May y tybiwyd y byddai ei dderbyn yn gwrthbwyso tipyn o'r pwysau presennol ac y byddai'r cyllid ar gyfer gwasanaethau ychwanegol y byddai'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu darparu. Dywedodd S May ei fod yn bwysig nodi bod y £26m yn ddyraniad comisiynydd felly byddai disgwyl i beth o'r cronfeydd hyn lifo i sefydliadau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i S May am gyflwyno'r adroddiad gan roi trosolwg cynhwysfawr o'r sefyllfa ariannol.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

8.4 Cynllun Tymor Canolig Integredig – Datblygu'r cynllun 3 blynedd nesaf

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r dull gweithredu y byddai angen ei fabwysiadu i ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig dros y tair blynedd nesaf. Nododd yr aelodau y byddai Bwrdd Eithriadol yn cael ei gynnal fis Chwefror 2022 i dderbyn a chymeradwyo'r cynllun.

Diolchodd y Cadeirydd i L Prosser am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

8.5 Diweddariad Rhaglen Systemau Gwybodaeth Radioleg

Cafwyd diweddariad ar lafar gan L Prosser a dywedodd fod y Bwrdd wedi cymeradwyo Achos Busnes amlinellol y Bwrdd Mewn Pwyllgor a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw. Nododd yr aelodau nad oedd y system bresennol yn addas i'r diben a nodwyd bod system amgen yn cael ei chaffael ar sail Cymru Gyfan. Nododd yr aelodau y byddai llythyr yn cael ei ysgrifennu at Dîm y Rhaglen Genedlaethol yn amlinellu rhai sylwadau a wnaed gan aelodau'r Bwrdd ynghylch agweddau technegol ac ariannol y system. Nododd yr Aelodau fod yr Achos Busnes wedi'i drafod Mewn Pwyllgor o ganlyniad i'r ffaith bod yr adroddiad yn fasnachol sensitif.

Diolchodd y Cadeirydd i L Prosser am y diweddariad a ddarparwyd.

Penderfyniad: **NODWYD** y diweddariad.

9. YSBRYDOLI POBL

9.1 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, cyflwynodd H Daniel yr adroddiad gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol a godwyd yn y cyfarfod diwethaf.

Diolchodd y Cadeirydd i H Daniel am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

9.2 Adroddiad Cryno'r Fforwm Partneriaeth Lleol

Cyflwynodd H Daniel yr adroddiad i'r Aelodau. Nododd yr aelodau fod y Bwrdd Iechyd bellach wedi llwyddo i gadw'r dyfarniad Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm. Dywedodd H Daniel y byddai'n awyddus i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw i'w cynorthwyo o safbwynt llesiant.

Diolchodd y Cadeirydd i H Daniel am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

10 UNRHYW FATERION ERAILL

Gofynnodd y Cadeirydd am farn Aelodau'r Bwrdd ynghylch 'Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn'. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Byddai angen adolygu'r materion technegol a brofwyd heddiw wrth symud ymlaen;
- Byddai angen hefyd adolygu cynnwys agendâu'r dyfodol er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws a tharged mewn cyfarfodydd.

11 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 10.00am ddydd Iau 27 Ionawr 2022.

12 DIWEDD Y CYFARFOD